



Ysgol Pentreuchaf

55. Polisi Darparu ar gyfer Disgyblion Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Chroesrywiol

1. Cyflwyniad.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno model o bolisi ar ddarparu ar gyfer disgyblion lesbaidd, hoyw, deurywiol a chroes rywiol [LHD] ac yn ystyried rhai egwyddorion craidd ynglŷn â chyfle cyfartal i ddisgyblion.

2. Cyd-destun.

2.1 Ni ddylid meddwl am LHD fel grŵp homogennus. Fel pobl ifanc heterorywiol mae personoliaeth LHD yn cael ei lywio gan ffactorau megis: rhyw, cenedl, ffydd, anabledd, dosbarth, amodau teulu, yn ogystal â'u tueddfryd rhywiol.

2.2 Mae llawer o waith ymchwil yn dangos bod LHD yn dioddef llawer oherwydd rhagfarn yn eu herbyn. Yn benodol mae'r gwaith a wnaed gan Stonewall yn dangos bod carfan helaeth o LHD yn dioddef bwlio. Gall y bwlio hyn fod yn llafar yn ogystal â bod yn gorfforol.

2.3 Dengys yr ymchwil hefyd bod tuedd i LHD adael yr ysgol yn 16 oed er bod eu cymwysterau yn awgrymu y gallant barhau a'u haddysg.

2.4 Tybir hefyd bod diffyg profiad staff ac agweddau negyddol rhieni yn ffactorau sy'n ei gwneud yn anodd i ysgolion ddelio a bwlio homoffobic.

3. Datganiad o fwriad.

3.1 Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn cynorthwyo a chyngori ysgolion ar sut i gynnal LHD ac yn gweithio i ddileu gwahaniaethu a rhagfarn a chreu cyfle cyfartal i bob disgybl.

4. Fframwaith Statudol.

Deddf Addysg 1988

Deddf Plant 2004.

5. Egwyddorion sylfaenol.

5.1 Mae gan ysgolion rôl bwysig i'w chwarae i wrthweithio diffyg dealltwriaeth a rhagfarn.

5.2 Mae ysgolion yn ceisio creu awyrgylch lle mae'r holl staff a disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu crosawu au parchu waeth beth fo eu tueddfryd rhywiol.

5.3 Mae addysg yn factor allweddol er mwyn hybu goddefgarwch a chreu cymdeithas deg ac agored.

6. Amcanion Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd.

6.1 Sicrhau fod pob disgybl yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm cenedlaethol.

6.2 Sicrhau cwricwlwm i'r holl bobl ifanc sy'n ymdrin â materion perthynas a thueddiadau rhywiol.

6.3 Paratoi hyfforddiant i athrawon ym meysydd gwahaniaethu a rhagfarn.

6.4 O gofio bod tueddfryd rhywiol yn rhan o'r Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol darperir hyfforddiant ar yr agweddau hyn.

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethu Ysgol.

7.1 Mae'n ddyletswydd ar lywodraethwyr i sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bob disgybl.

7.2 Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau cydymffurfiant gyda'r deddfau perthnasol.

7.3 Rhaid i lywodraethwyr sicrhau bod cyfle cyfartal i bob disgybl waeth beth fo eu tueddiad rhywiol.

8. Cyfrifoldeb a dyletswyddau penaethiaid ysgol.

8.1 Dylai pennaeth sicrhau bod pob disgybl yn cael ei drin yn deg heb ystyried ei dueddfryd rhywiol.

8.2 Bydd y pennaeth yn sicrhau nad yw defnyddiau dysgu yn dangos gogwydd homoffobic

8.3 Bydd yr ysgol yn ystyried agweddau homoffobic a bwlio ar sail tueddfryd rhywiol yn faterion disgyblu difrifol.

8.4 Bydd y pennaeth yn sicrhau bod systemau cynnal a chyngori ar gael i LHD, os ydynt yn dymuno gwasanaeth o'r fath.

8.5 Bydd y pennaeth yn sicrhau bod gofynion Cylchlythyr 11/2002 ynglŷn â Rhyw a Pherthynas yn cael eu gweihredu.

9. Casgliad.

Nôd y Gwasanaeth Ysgolion ac Ysgolion Gwynedd yw creu sefydliadau sy'n groesawus ac agored tuag at yr holl ddisgyblion. Byddant yn gweithio i sicrhau y bydd LHD yn derbyn cyfle cyfartal ac y bydd mater tueddfryd rhywiol yn cael ei drafod yn onest er mwyn creu cymdeithas ysgol oddefgar.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____